YSTADEGAU

# Staff a gyflogir yn uniongyrchol gan y GIG: ar 30 Medi 2021

Data am staff meddygol, deintyddol, nyrsio a bydwreigiaeth, ar 30 Medi 2021.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 16 Chwefror 2022

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 16 Chwefror 2022

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/staff-gyflogir-yn-uniongyrchol-gan-y-gig-ar-30-medi-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


Cyflwyniad

Prif bwyntiau

Crynodeb o'r staff a gyflogir

Staff meddygol a deintyddol

Staff nyrsio, bydwreigiaeth ac ymwelwyr iechyd

Grwpiau staff eraill

Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg

Manylion cyswllt



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/staff-gyflogir-yn-uniongyrchol-gan-y-gig-ar-30-medi-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cyflwyniad

Y GIG yw'r cyflogwr mwyaf yng Nghymru, ac ar hyn o bryd mae'n cyflogi mwy na 103,000 o bobl, mewn bron i 89,000 o swyddi cyfwerth ag amser llawn. Mae data o 1979 ar gael ar gyfer staff a gyflogir gan y GIG; fodd bynnag, yn sgil newidiadau yng nghategorïau'r staff, dim ond y niferoedd cyffredinol y gellid eu cymharu'n union dros amser.

Mae nifer o newidiadau wedi'u gwneud i **Lawlyfr Codau Galwedigaethau'r GIG**, a chanfuwyd nifer o broblemau gydag ansawdd data yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'r rhain yn effeithio ar y cymariaethau dros amser ar gyfer rhai grwpiau staff; ceir rhagor o fanylion yn yr **adroddiad ansawdd**.

Mae'r cyfnod amser a gwmpesir gan y data hwn yn cynnwys y pandemig coronafeirws (COVID-19). Roedd y rhan fwyaf o'r grwpiau staff ar 30 Medi 2021 yn cynnwys staff ar gontractau tymor byr neu benodol. Roedd y rhain yn cynnwys dod â staff a oedd wedi ymddeol yn ddiweddar i mewn i helpu yn ystod y pandemig COVID-19.

Nid yw'r data'n cynnwys **Ymarferwyr Meddygol Cyffredinol** a rhai **Ymarferwyr Deintyddol** gan eu bod yn Gontractwyr annibynnol i'r GIG.


Daw'r data o Gofnod Staff Electronig y GIG a ddarperir gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru.

Cyhoeddir y data sydd wedi'i gynnwys yn y datganiad hwn ar **StatsCymru**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/staff-gyflogir-yn-uniongyrchol-gan-y-gig-ar-30-medi-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Prif bwyntiau

## Siart 1: Nifer y staff (cyfwerth ag amser llawn) a gyflogir yn uniongyrchol gan y GIG yng Nghymru 30 Medi 2020 a 30 Medi 2021, yn ôl grŵp staff




Ffynhonnell: Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)

Rhwng 30 Medi 2020 a 30 Medi 2021 (o ran niferoedd cyfwerth ag amser llawn):

- bu cynnydd o 3,493 (4.1%) yng nghyfanswm nifer y staff i 88,638
- bu cynnydd o 294 (4.1%) yn nifer y staff meddygol a deintyddol i 7,505
- bu cynnydd o 926 (2.7%) yn nifer y staff nyrsio, bydwreigiaeth ac ymwelwyr


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/staff-gyflogir-yn-uniongyrchol-gan-y-gig-ar-30-medi-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

iechyd i 35,688

- bu cynnydd o 2,273 (5.3%) mewn grwpiau staff eraill i 45,445

## Crynodeb o'r staff a gyflogir

### Siart 2: Nifer y staff (cyfwerth ag amser llawn) a gyflogir yn uniongyrchol gan y GIG yng Nghymru ar 30 Medi, yn ôl grŵp staff, 1979 i 2021




(a) Yn cynnwys staff ambiwlans, cynorthwywyr gofal iechyd, gweithwyr cymorth a staff anfeddygol. Yn dilyn newidiadau i'r codau galwedigaeth, mae tua 70% o'r cynorthwywyr gofal iechyd wedi'u cynnwys gyda staff nyrsio, bydwreigiaeth ac ymwelwyr iechyd o 2009, yn 'arall' yn flaenorol. Toriad yn y siart i ddangos y newid.

Ffynhonnell: Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)

Mae nifer y staff a gyflogir yn uniongyrchol gan y GIG (cyfwerth ag amser llawn) wedi cynyddu o 46,909 yn 1979 i 88,638 yn 2021, cynnydd o 89.0%.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/staff-gyflogir-yn-uniongyrchol-gan-y-gig-ar-30-medi-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Mae’r cynnydd o 4.1% yn nifer y staff rhwng 30 Medi 2020 a 30 Medi 2021 yn is na’r flwyddyn flaenorol, ond mae hefyd yn debygol o fod yn rhannol oherwydd staff dros dro wedi’u recriwtio mewn ymateb i’r pandemig COVID-19.

## Tabl 1: Nifer y staff (cyfwerth ag amser llawn) a gyflogir yn uniongyrchol gan y GIG yng Nghymru ar 30 Medi 2020 a 30 Medi 2021, a’r newid canrannol ers 30 Medi 2020

| Grwpiau staff | Ar 30 Medi 2020 | Ar 30 Medi 2021 | % newid o 2020 |
|---|---|---|---|
| **Meddygol a deintyddol** | | | |
| **Meddygol yn yr ysbyty** [1] | 6,798 | 7,096 | 4.4% |
| **Deintyddol yn yr ysbyty** | 169 | 166 | -2.3% |
| **Meddygol cymunedol / iechyd cyhoeddus** | 49 | 46 | -4.8% |
| **Deintyddol cymunedol / iechyd cyhoeddus** [2] | 195 | 197 | 1.2% |
| **Holl staff meddygol a deintyddol** | **7,211** | **7,505** | **4.1%** |
| **Nyrsio, bydwreigiaeth ac ymwelwyr iechyd** | | | |
| **Nyrsys ac ymwelwyr iechyd cofrestredig** | 21,898 | 22,591 | 3.2% |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/staff-gyflogir-yn-uniongyrchol-gan-y-gig-ar-30-medi-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

| Grwpiau staff | Ar 30 Medi 2020 | Ar 30 Medi 2021 | % newid o 2020 |
|---|---|---|---|
| **Bydwragedd cofrestredig** | 1,377 | 1,379 | 0.2% |
| **Staff cymorth** [3] [4] | 11,487 | 11,718 | 2.0% |
| **Holl staff nyrsio, bydwreigiaeth ac ymwelwyr iechyd** | **34,762** | **35,688** | **2.7%** |
| **Gwyddonol, therapiwtig a thechnegol** | | | |
| **Staff cymwysedig** | 11,164 | 11,443 | 2.5% |
| **Staff cymorth** [3] [4] | 3,347 | 3,620 | 8.2% |
| **Holl staff gwyddonol, therapiwtig a thechnegol** | **14,512** | **15,063** | **3.8%** |
| **Gweinyddol ac ystadau** | | | |
| **Uwch-reolwr / rheolwr** | 2,538 | 2,662 | 4.9% |
| **Clerigol a Gweinyddol** | 15,770 | 17,249 | 9.4% |
| **Cynnal a Chadw a Gweithfeydd** | 1,415 | 1,672 | 18.1% |
| **Holl staff gweinyddol ac ystadau** | **19,722** | **21,583** | **9.4%** |
| **Cynorthwywyr Gofal Iechyd a staff** | | | |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/staff-gyflogir-yn-uniongyrchol-gan-y-gig-ar-30-medi-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

| Grwpiau staff | Ar 30 Medi 2020 | Ar 30 Medi 2021 | % newid o 2020 |
|---|---|---|---|
| **cymorth eraill** | | | |
| **Cynorthwyydd Gofal Iechyd [3]** | 94 | 107 | 13.6% |
| **Gweithiwr cymorth** | 6,080 | 5,799 | -4.6% |
| **Holl Gynorthwywyr Gofal Iechyd a staff cymorth eraill** | **6,174** | **5,906** | **-4.3%** |
| **Ambiwlans** | | | |
| **Staff cofrestredig** | 1,151 | 1,107 | -3.8% |
| **Staff cymorth [4]** | 1,518 | 1,677 | 10.4% |
| **Holl staff ambiwlans** | **2,670** | **2,784** | **4.3%** |
| **Staff eraill** | | | |
| **Staff anfeddygol eraill** | 94 | 109 | 15.8% |
| **Cyfanswm** | **85,145** | **88,638** | **4.1%** |

Ffynhonnell: Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)

Nodyn: ceir rhagor o fanylion am grwpiau staff yn yr adroddiad ansawdd.

1 Gweler Meddygon Teulu dan hyfforddiant

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i https://www.llyw.cymru/staff-gyflogir-yn-uniongyrchol-gan-y-gig-ar-30-medi-2021-html i weld y fersiwn ddiweddaraf.


Gwybdaeth am hawlfraint.

2 Gweler Deintyddion (staff deintyddol nad ydynt yn yr ysbyty)
3 Gweler Cynorthwywyr Gofal Iechyd (H1) a Chynorthwywyr Nyrsio / Nyrsys Cynorthwyol (N9)
4 Gweler Personél Ambiwlans
5 Staff ar daliadau cyffredinol, a staff anfeddygol eraill. Gweler hefyd Staff eraill.

Bu cynnydd yn nifer y staff ar gyfer pob grŵp staff oni bai am Gynorthwywyr Gofal Iechyd a staff cymorth eraill o 30 Medi 2020 i 30 Medi 2021. Mae’n debygol bod rhai staff a gyflogwyd dros dro yn ystod y pandemig COVID-19 yn parhau ar y system ESR.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/staff-gyflogir-yn-uniongyrchol-gan-y-gig-ar-30-medi-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Siart 3: Staff (cyfwerth ag amser llawn) a gyflogir yn uniongyrchol gan y GIG yng Nghymru ar 30 Medi 2021**




Ffynhonnell: Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
Nodyn: mae rhifau wedi'u talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf


## Crynodeb staff y GIG ar StatsCymru

Ar 30 Medi 2021, roedd bron hanner y staff oedd yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan y GIG yng Nghymru naill ai'n staff meddygol a deintyddol, neu'n perthyn i'r grŵp nyrsio, bydwreigiaeth ac ymwelwyr iechyd. Y grŵp nyrsio, bydwreigiaeth ac ymwelwyr iechyd oedd y grŵp staff mwyaf, yn cyfrif am 40% o'r holl staff.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/staff-gyflogir-yn-uniongyrchol-gan-y-gig-ar-30-medi-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Staff meddygol a deintyddol

### Siart 4: Staff meddygol yn yr ysbyty (cyfwerth ag amser llawn) o 2009 i 2021




Ffynhonnell: Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)

Yn gyffredinol, mae cyfanswm staff meddygol yn yr ysbyty (cyfwerth ag amser llawn) wedi cynyddu'n raddol o 2009, ond bu cynnydd mwy amlwg ers 30 Medi 2019. Mae hyn hefyd yn wir am ymgynghorwyr meddygol.

Bu cynnydd o 1,805 (34.1%) yn nifer y staff meddygol yn yr ysbyty (cyfwerth ag amser llawn) ers 2009, a chynnydd o 298 (4.4%) ers 30 Medi 2020, i gyfanswm o 7,096 ar 30 Medi 2021.

Bu cynnydd o 747 (38.3%) yn nifer yr ymgynghorwyr meddygol yn yr ysbyty (cyfwerth ag amser llawn) ers 2009, a chynnydd o 87 (3.3%) ers 30 Medi 2020, i gyfanswm o 2,699 ar 30 Medi 2021.


Mae cyfanswm staff deintyddol yr ysbyty (cyfwerth ag amser llawn) wedi aros


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/staff-gyflogir-yn-uniongyrchol-gan-y-gig-ar-30-medi-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

tua 160 ers 2009. Mae ymgynghorwyr deintyddol (cyfwerth ag amser llawn) hefyd wedi aros yn weddol gyson o ran nifer ond maent wedi cynyddu 4 (9.3%) ers 30 Medi 2020, i gyfanswm o 49 ar 30 Medi 2021.

# Staff nyrsio, bydwreigiaeth ac ymwelwyr iechyd

**Siart 5: Staff nyrsio, bydwreigiaeth ac ymwelwyr iechyd (cyfwerth ag amser llawn) o 2009 i 2021**




Ffynhonnell: Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)

Yn gyffredinol, mae staff nyrsio, bydwreigiaeth ac ymwelwyr iechyd cofrestredig, a staff cymorth nyrsio, wedi cynyddu ers 2009. Er i nifer y staff hyn ostwng ychydig ym mis Medi 2018, bu cynnydd amlwg ym mis Medi 2020 gyda'r niferoedd yn cynyddu ymhellach erbyn mis Medi 2021.


Bu cynnydd o 2,223 (10.2%) yn nifer y staff nyrsio cofrestredig (cyfwerth ag amser llawn) ers 2009 a chynnydd o 695 (3.0%) ers 30 Medi 2020, i gyfanswm o

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/staff-gyflogir-yn-uniongyrchol-gan-y-gig-ar-30-medi-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

23,969 ar 30 Medi 2021.

Bu cynnydd o 2,305 (24.5%) yn nifer y staff cymorth nyrsio (cyfwerth ag amser llawn) ers 2009 a chynnydd o 231 (2.0%) ers 30 Medi 2020, i gyfanswm o 11,718 ar 30 Medi 2021.

## Grwpiau staff eraill




Ffynhonnell: Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)

### Staff y GIG ar StatsCymru

Bu cynnydd o 3,799 (33.7%) yn nifer y staff gwyddonol, therapiwtig a thechnegol

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/staff-gyflogir-yn-uniongyrchol-gan-y-gig-ar-30-medi-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

(cyfwerth ag amser llawn) ers 2009, a chynnydd o 552 (3.8%) ers 30 Medi 2020, i gyfanswm o 15,063 ar 30 Medi 2021. Bu cynnydd cyson yn y niferoedd ers 2014.

Bu cynnydd o 5,515 (34.3%) yn nifer y staff gweinyddol ac ystadau (cyfwerth ag amser llawn) ers 2009, a chynnydd o 1,861 (9.4%) ers 30 Medi 2020, i gyfanswm o 21,583 ar 30 Medi 2021. Yn dilyn gostyngiadau bach o 2009, mae'r niferoedd wedi cynyddu bob blwyddyn ers 2012. Y cynnydd blynyddol diweddaraf yw'r cynnydd canrannol uchaf a welwyd.

Bu cynnydd o 929 (50.1%) yn nifer y staff ambiwlans (cyfwerth ag amser llawn) ers 2009, a chynnydd o 114 (4.3%) ers 30 Medi 2020, i gyfanswm o 2,784 ar 30 Medi 2021. Bu cynnydd amlwg o 16.0% rhwng 2018 a 2019 (yn bennaf oherwydd newidiadau sylweddol i adran ambiwlans llawlyfr codau galwedigaethau'r GIG, gweler yr **adroddiad ansawdd** am ragor o wybodaeth) a chynnydd pellach o 9.8% rhwng 2019 a 2020.

Bu gostyngiad o 594 (9.1%) yn nifer y cynorthwywyr gofal iechyd a staff cymorth eraill (cyfwerth ag amser llawn) ers 2009, a gostyngiad o 268 (4.3%) ers 30 Medi 2020, i gyfanswm o 5,906 ar 30 Medi 2021; effeithir yn rhannol ar hyn gan ail-godio rhai cynorthwywyr gofal iechyd i gynorthwywyr nyrsio / nawdd, gweler yr **adroddiad ansawdd** am ragor o wybodaeth.

Mae dadansoddiadau manylach o fewn y grwpiau staff, yn cynnwys niferoedd staff ar gyfer sefydliadau GIG unigol, ar gael ar **StatsCymru**.

# Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg

Daw'r data o Gofnod Staff Electronig y GIG a ddarperir gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn yr **adroddiad ansawdd**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/staff-gyflogir-yn-uniongyrchol-gan-y-gig-ar-30-medi-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol

Hanfod Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae’r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant i Gymru sef Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach a chyfrifol ar lefel fyd-eang, gyda chymunedau cydlynol a diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o’r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion (“dangosyddion cenedlaethol” sy’n gorfod cael eu cymhwyso at ddibenion mesur cynnydd tuag at gyflawni’r nodau llesiant, a (b) gosod copi o’r dangosyddion cenedlaethol gerbron Senedd Cymru. O dan adran 10(8) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, pan fo Gweinidogion Cymru yn diwygio'r dangosyddion cenedlaethol, rhaid iddynt, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol (a) gyhoeddi'r dangosyddion fel y'u diwygiwyd a (b) gosod copi ohonynt gerbron y Senedd. Fe gafodd y dangosyddion cenedlaethol hyn osodwyd gerbron y Senedd yn 2021. Mae'r dangosyddion a osodwyd ar 14 Rhagfyr 2021 yn disodli'r set a osodwyd ar 16 Mawrth 2016.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a'r wybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn **adroddiad Llesiant Cymru**.

Gwybodaeth bellach am **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015**.

Gallai’r ystadegau a ddefnyddir yn y datganiad hwn ategu’r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau lleol mewn perthynas â’u hasesiadau llesiant a’u cynlluniau llesiant lleol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/staff-gyflogir-yn-uniongyrchol-gan-y-gig-ar-30-medi-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Manylion cyswllt

Ystadegydd: Bethan Sherwood
Llinell Ymholiadau Cyffredinol
Ffôn: 0300 025 6735
E-bost: **ystadegau.iechyd@llyw.cymru**

Cyfryngau: 0300 025 8099

SFR 49/2022

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/staff-gyflogir-yn-uniongyrchol-gan-y-gig-ar-30-medi-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.